"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD:

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1889. [RHIF 13.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Anerchiad YR YMOFYNYDD	1
Pregeth	3
Llwynrhydowen	6
Ymweliad a Chapeli Cymreig	7
Calaniadur Cymreig	10
Etholiad y Cynghorau Sirol	11
Cymry Annghofiedig	14
Er coffa sanctaidd	17
Nodynau Gwasgarog	18
Manion a Hanesion	19
Marwgofion	20

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU :—J.J., Quaker's Yard ; R.G., Cwmavon ; D.T., Llantwit Major ; D.E., Ystrad ; E.P., Glyncorrwg ; D.T., Liverpool.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,

CEFNCOED,

NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU :—Pris 3c., trwy'r post, 3½c. ; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnelir y Cyfarfod Chwarterol nesaf ar y Mercher a'r Iau cyntaf yn y flwyddyn newydd, sef Ionawr yr 2il a'r 3ydd, yn Hen-dy-cwrdd, Cefn. Y cyrddau i ddechreu nos Fercher am 7, ac i barhau dydd Iau, Boreu ddydd Iau, pregethir yn Saesneg gan y Parch. Owen J. Jones. Caerdydd, ac yn Gymraeg gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca. Bwriadir tori ychydig ar y drefn arferol yn y cyfarfodydd hyn. Yn lle y pwnc prydnawn ddydd Iau, bydd pregethu—digon tebyg, yn Gymraeg a Saesneg. Gobeithiwn y bydd y gweinidogion yn gryno yma, ac yr ydym hefyd yn rhoi gwahoddiad calonog i bawb, gan fawr hyderu y derbynir y gwahoddiad gan luaws o'n cyfeillion yn mhell ac agos.

J. HATHREN DAVIES.

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

Pob Tanysgrifiadau i'w hanfon i Rev. R. C. JONES, Lampeter

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

Y CALANIADUR CYMREIG.

Os dygwydd i rai o'n derbynwyr weled fod enwau wedi eu gadael allan, carem glywed oddiwrthynt er gosod y cyfryw yn ein rhifyn nesaf.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1889. [RHIF 13.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda"—PAUL.

ANERCHIAD *YR YMOFYNYDD.*

HYNAWS DDARLLENYDD,—Dyma fi wedi hwylio blwyddyn dan dywysiad y cadben newydd—pa mor llwyddiannus y mae y fordaith wedi bod tydi sydd i farnu. I mi, wrth edrych yn ol dros dreigliad rhagor nâ deugain mlynedd, ac yn ystod yr amser hwnw yn gallu adfyfyrio ar y cymhorth dirwgnach a gefais gan y fyddin hono o weithwyr ag nad oes ond ambell un yma a thraw o honynt yn aros heddyw, credaf fy mod wedi gwneyd rhyw gymmaint o les yn y cylchoedd sydd wedi rhoddi derbyniad i mi. Ganwyd fi ar adeg pan oedd y syniadau yr ymdrinir â hwynt ar fy nhudalenau yn anmhoblogaidd, a gorfu i mi fordwyo yn erbyn llawer o groes awelon a chwythent arnaf ac a fygythient wneyd drylliad o honof, ond bum yn ffodus i gael, nid yn unig gadben galluog a medrus i gydio yn y llyw, ond hefyd ddwylaw ewyllysgar bob amser yn barod i aberthu pobpeth er gwneyd fy nhaith yn llwyddiant. Ar y cyfan, yr wyf wedi cael croesaw calonog, a phe na fyddwn wedi sirioli ond un galon lesg, ac wedi cadw y llin i fygu ond ar un aelwyd isel, ystyriwn hyny yn ddigon o gyfiawnhad dros fy modolaeth. Yr wyf yn ymwelydd derbyniol dan y gronglwyd hono a anneddir gan ryw fab neu ferch—yn awr, o bossibl, yn dad neu yn fam—a fagwyd ac a faethwyd ar egwyddorion Undodiaeth, ond a yrwyd gan helyntion byd i groesi rhiniog yr hen fwthyn anwyl, ac i ymneillduo i ryw gongl annghysbell, yn mhell o swn y gwirioneddau a ogleisient y glust pan oeddent blant dan ofal eu rhieni, ac y maent yn awr yn estroniaid yn y tir, allan o gydymdeimlad â'r byd mawr oddiamgylch iddynt. I'r cyfryw yr wyf wedi ymddangos megys colomen yn cludo dalen fechan yn ei phig, sydd yn dweyd am rywrai y teimla'r galon dros eu llwydd, ac mae yr enaid unwaith etto yn clafychu am

yr hen fangre ac yn hiraethu am ddyddimu y gagendor sydd yn ysgaru rhyngddi a chyfoedion mebyd oes. Os na fuost ti, ddarllenydd, rywbryd oddicartref, ni wyddost ti ddim am y teimladau hyn.

Credaf i mi fod o wasanaeth mewn ystyr arall. Pan âf yn ol ar edyn adgof, ac y ceisiaf dremio drwy y niwl sydd yn ymgodi rhyngof a'r gorphenol, gwelaf, ond mae y gwynebau erbyn heddyw megys gweledigaeth mewn breuddwyd, ryw ddau neu dri o'r hen ffyddloniaid yn cwrdd â'u gilydd i ddarllen yn awchus yr erthyglau oeddent wedi eu hysgrifenu ar fy nhudaleneu. Byddent yn ymgyfarfod mewn rhyw ystafell neillduedig, ac yno, pan nad oedd un cyfleusdra arall yn ymgynnyg iddynt, ymgryment i addoli Duw eu tadau, a myfyrio ar y gwirioneddau gwerthfawr a ddygwn I iddynt, fel y byddent yn barod bob amser i roddi rheswm am y gobaith oedd ynddynt. Y pryd hwnw oedd oes y cewri yn y byd Undodaidd. A oes yr un syched am wybodaeth yn ymaflyd yn fy narllenwyr ieuainc y dyddiau presenol? A oes yr un awydd ynddynt i ddyfod yn gewri i ddadleu dros y ffydd oedd werthfawr gan y tadau? Ac a oes ganddynt yr un sêl a brwdfrydedd i osod eu henaid ar dân dros bethau crefyddol ag oedd gan yr hen bobl gynt? Barna di. Ond os gallaf dwyllo fy hunan fy mod wedi bod o ryw les yn y fel hyn, ni fu hyny heb gwrdd, fel y dywedais, â llawer iawn o anhawsderau, ac mae anhawsderau, er nad o'r un nodwedd, yn aros o hyd.

Rhag dy flino â'r adgofion hyn am *a fu*, crybwyllaf ychydig ffeithiau am *y sydd*, fel y gellir cael rhyw syniad am *a ddaw*. Fel y pregethwyr mawrion, cyfeiriaf fy sylwadau at ddau ddosparth, sef y *gohebwyr* a'r *derbynwyr*. Ni hoffwn mewn un modd ddweyd dim yn galed, yn enwedig ar ddechreu blwyddyn newydd, pan mae cynnifer o longyfarchiadau i'w clywed yn mhob cyfeiriad, ond mae y dyn sydd ar gael ei lethu yn rhwym o waeddi. Mae yn fwynhad genyf edrych yn ol, ac wrth wneyd hyny gwelaf yn ymgodi o flaen llygad fy meddwl ffurfiau cawraidd y gwroniaid y bu eu hysgrifelli mor odidog brysur er ceisio fy ngwneyd I yn ddyddorol. Gyda boddhad y cofiaf am J. E. Jones, Owen Evans, John James, John Jones, Tom Stephens, Gwilym Marles, ac ereill a fuont mor ardderchog weithgar yn yr amser gynt. Pan daflasant hwy eu harfau i lawr, ac yr ymneillduasant mewn gogoniant o'r frwydr, a beidiodd ar yr un pryd yr angen am gyhoeddi newyddion da Undodiaeth? A dreiodd ffynnon ysprydoliaeth carwyr ein hachos yn Nghymru pan gauodd y bedd ar weddillion y dewrion hyn? Neu, a oes nos o ddystawrwydd bythol wedi ymdaenu dros ein hysgrifenwyr, fel na chlywir adsain eu llais yn ymdori byth dros gaerau yr ardal fechan y mae Rhagluniaeth wedi eu gosod i droi ynddi? Diolch i'r Arch-reolwr am fod yn aros etto rai sydd wedi milwrio milwriaeth ogoneddus yn y gwaith da, a hir y parhao eu haul heb fachlud; ond gorfodiaeth a osodir arnaf i ddweyd nad yw y gohebwyr hyny a allasent roddi cymhorth anmhrisiadwy i mi mor lluosog ag y carwn iddynt fod. Annichonadwy yw dwyn unrhyw gyhoeddiad yn mlaen heb gymhorth a chydweithrediad, a rhaid i mi ddiolch am fy modolaeth hyd yn hyn i ymdrechion hunan-ymwadol tri neu bedwar o weision da eu gair ag

sydd yn atebol am yr hyn o lwyddiant neu aflwyddiant a ddichon fod yn gymhleth â'm hanes yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, ac yr wyf yn meddwl y dylai y golygydd presenol ganmol ei ffawd am ei bod hi cystal arno, gan i mi ei gweled hi yn fwy dilewyrch fyth ar rai o'i rag-flaenoriaid. Bu amser, a gobeithiaf ei fod etto, pan oedd pleidwyr ein ffydd yn blaenori yn mhob diwygiad, ac yn sefyll yn rheng flaenaf athrawon a dysgawdwyr yr oes; ac yn awr, pan y mae cymmaint o gyffro ac aflonyddwch yn ysgwyd y byd meddyliol a chrefyddol, egwyddorion y Dduwinyddiaeth Newydd yn lefeinio pob cangen o'r Eglwys Gristionogol ar y ddaear, a'r gobaith eangach yn dadlenu cymmeriad Duw mewn agweddau mwy cysurlawn a mynwesol, a ga y sawl a roisant fodolaeth i'r symmudiadau hyn laesu dwylaw, a gadael i ereill feddiannu yr uchelfan hwnw sydd wedi bod drwy yr oesoedd yn hawlfraint neillduol iddynt hwy eu hunain? Erys llawer o gyfeiliornadau etto yn y byd, a gadawer i mi fod yn gyfrwng i nodi allan y cyfeiliornadau hyn, nid drwy ymosod yn uniongyrchol arnynt, ond drwy ddangos gwirionedd yn ei degwch cynhwynol, ac er i'm hymdrechion goreu lawer pryd brofi yn aneffeithiol, glynwn wrth ein dyledswydd, a chofiwn eiriau y bardd,

"Truth forever on the scaffold; Wrong forever on the throne;
Yet that scaffold sways the future; And behind the dim unknown
Standeth God within the shadow, Keeping watch above His own."

Mae ffyniant ein hachos yn ymddybynu ar fod pob person yn gwneyd ei oreu dros y ffydd a bregethwyd unwaith i'r saint. "Ereill a lafuriasant, ninau a gawsom fyned i fewn i'w llafur hwynt." Rhagor o gymhorth, frodyr, a chwi fyddwch yn gwneyd gwasanaeth, nid yn gymmaint i'r golygydd, ond i'r enwad sydd yn anwyl genych.

A fydd hi yn ormod i mi yn mhellach fynwesu'r gobaith y bydd dechreu y flwyddyn newydd hon yn ddechreu rhestr newydd o dderbynwyr newyddion? Hyderaf mai felly y bydd, ac y ca fy einioes inau ei hwyhau am ryw dymhor yn rhagor.

Bellach, ddarllenydd, bydd wych, ac â'm holl enaid yr erfyniaf y bydd i'r flwyddyn hon fod yn flwyddyn newydd ac yn flwyddyn dda i ti mewn gwirionedd; ac am lawer blwyddyn etto boed i Roddwr pob bendith daenu blodau ei gariad yn dewfrith ar hyd dy lwybrau yn y byd. Dyna yw gweddi ddidwyllaf

Yr Ymofynydd.

PREGETH.

(*Parhad o'r rhifyn diweddaf.*)

Gwna'r Iesu ein hachub ni hefyd, trwy ein dysgu yn y modd mwyaf eglur am gariad a thosturi Tad yn y Nefoedd. Yr ydym yn aml yn ymwybodol o'n gwendid a'n ffaeleddau, ac nis gwyddom pa beth i'w wneuthur, ac yr ydym yn ceisio cuddio ein gwynebau mewn cywilydd,

wrth feddwl am y troseddau ag ydym wedi gyflawnu. Yr ydym yn troi at yr Iesu, ac yr ydym yn clywed ei lais Dwyfol Ef yn ein galw yn ol at ein Tad Nefol, yr hwn sydd yn tosturio wrthym yn ein pechodau, ac yn barod ac yn awyddus i'n croesawu ni yn ol i'w freichiau o gariad, ond i ni adael heibio ein pechodau, a dychwelyd yn edifeiriol i gorlan Duw. "Deuwch ataf fi bawb ag sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythaf arnoch." Gadewch i mi eich tywys chwi at Un sydd yn maddeu, ac yn gyfoethog mewn trugaredd a gwirionedd. Os ydych yn teimlo eich bod chwi yn bechaduriaid, edifarhewch am eich pechodau, a dewch yn ol i freichiau cariadlawn eich Tad. Nid yw yn Dduw digofus a dialgar—Cariad yw ei enw; mae yn Dduw a faddeu i'r afradlon penaf, ond iddo benderfynu gadael ei bechodau, a cheisio am faddeuant mewn yspryd gweddus.

Mae yr Iesu yn ein hachub ni mewn ystyr bwysig arall, trwy roddi i ni deimlad cysurlawn o ystad ddyfodol o fodolaeth, lle cawn ni gyfarfod unwaith etto â'r anwyliaid hyny ag ydym wedi golli o'n cartrefleoedd, a lle y cawn fod am byth yn mhresenoldeb Duw a holl breswylwyr gwynfydedig y nefoedd. Mae yr athrawiaeth fod dyn i fyw byth bron mor gyffredinol a'r gred yn Nuw Ei Hunan. Cwyd yn naturiol o'r hiraeth difrifol yn y galon ddynol a blanwyd gan Dduw—hiraeth am yr Anfeidrol.

Ond nid yw yr athrawiaeth holl-gysurlawn hon wedi cael ei dysgu i ni mor eglur ac mor bendant yn unrhyw gyfundrefn o grefydd ag ei dysgir hi gan Iesu Grist. "Yn nhŷ fy Nhad mae llawer o drigfanau. Yr wyf fi yn myned i barotoi lle i chwi." Llefarai yr Iesu yn aml am y Nefoedd fel preswyl plant Duw. Llefarai am dani fel ffaith, ac nid yn unig fel dirnadaeth. A phan mae'r geiriau dyddanus hyny o'i eiddo yn dyfod atom mewn dygn dristwch, ai nid ydynt yn syrthio fel balm ar yr yspryd clwyfedig, yn ysgafnhau ein baich trwm, yn lleddfu ein trallod, ac yn gwasgaru eu hofnau ffol? Mae y galarwr ar ol yr anwyliaid ydynt wedi blaenu yn peidio wylo, neu mae ei ddagrau yn treiglo heb unrhyw chwerwder, pan mae yn clywed llais yr Iesu yn datgan y geiriau cysurlawn hyny, "Na thralloder eich calon, yr ydych yn credu yn Nuw, credwch ynof finau hefyd. Yn nhŷ fy Nhad mae llawer o drigfanau."

Mae rhai wedi eu tynghedu i brofi tristwch lawer oddiwrth helbulon bywyd. Yn llesg ac yn flin gan anffodion eu tynghed ar y ddaear, maent, yn ddiamheu, yn derbyn llawer o ddyddanwch o'r meddwl fod yr amser yn dyfod pan elwir arnynt i daflu lawr eu baich trwm, pan yr ad-delir iddynt am yr oll a ddyoddefasant yn y byd hwn. Mae yr Iesu yn dwyn iddynt y dyddanwch hwn, ac yn erchi iddynt gymmeryd cysur—ni phery eu pererindod yn hir, ac felly, wrth edrych ar yr Iesu, ysgafnheir eu baich, a dyoddefant eu trallodion a'u poenau yn amyneddgar hyd nes daw'r amser iddynt ymadael, a chael eu dwyn i'r byd dysglaer hwnw nad oes tristwch na galar yn agos iddo.

Ac yn Ngardd Gethsemane, ac ar y groes, ai nid oes iachawdwriaeth i ni? Ai nid yw yr olygfa doddedig hono yn yr ardd yn dwyn i ni wers o ymostyngiad i ewyllys ein Tad, yr Hwn sydd yn y Nef-

oedd." Yma y gwelwn ddiwedd bywyd gwerthfawr a gogoneddus, a'r fath ddiwedd! Dyma un oedd wedi cyflwyno ei holl fywyd i les dynolryw, ac yn awr, edrychwn arno pan mae angeu yn ymddynesu, wedi ei adael yn unig gyda holl ddychrynfeydd croeshoeliad greulawn yn ei aros, ac etto, mae yn myn'd yn dawel i gwrdd â'i dynghed! Yr oedd y frwydr yn galed i'w hymladd yn Gethsemane; ond ni ynganai air yn erbyn ewyllys ei Dad. "Er hyny, O Dad, nid fy ewyllys I, ond dy ewyllys Di a wneler." Mae y wers i ni yn ddigon amlwg, ac ond i ni wrando arni, gwna ein gwaredu o lawer o bryder meddwl, pan mae oriau olaf bywyd yn dyfod ar ein gwarthaf, a phan yr ydym yn dyoddef o dan weinyddiadau Rhagluniaeth Duw, a'n harbed rhag llawer o ddychrynfeydd glan yr Iorddonen.

Pan mae ein hysprydoedd, o herwydd dyoddefaint, erledigaeth, neu helbul, yn barod i suddo, a ninau yn cael ein taflu yn hollol lawr, os edrychwn ni ar yr Iesu, a gweled sut y bu yn rhaid iddo ymladd â drygau bywyd, sut yr ymladdodd, ac y daeth yn Orchfygwr, ni a gawn nerth i drechu ein holl dreialon, os y ceisiwn ni yn ddifrifol ddwyn ein dyoddefiadau yn ngwir Yspryd Crist, a phan ddaw yr awr hono arnom, fel y mae yn rhaid iddi ddyfod at bawb, bydd un drem tua Chalfaria yn foddion i'n helpu ni i gwrdd ag angeu, heb ddim o'r arswyd hwnw ag ydym yn dueddol i bortreadu yn ein meddyliau pan yn meddwl am ein hymadawiad o'r byd presenol.

Ai nid yw'r Iesu, ynte, yn gyflawn hawlio iddo ei hunan y teitl o Iachawdwr y Byd, pan y mae wedi gwneyd cymmaint drosom ni i'n helpu ar ein taith, sydd yn aml yn arw, trwy ein bywyd ar y ddaear?

Mae ef yn ein helpu i ddyfod yn rhinweddol, yn gyfiawn, a charedig tuag at ein cyd-ddyn. Dysg i ni garu ac anrhydeddu ein Gwneuthurwr. Mae yn ein gwaredu oddiwrth bechod a'i ganlyniadau ofnadwy, trwy ein cyfeirio at rinwedd a sancteiddrwydd, a thrwy ein dysgu i garu daioni, ac i gashau pob drygioni. Mae wedi llefaru mewn acenion tyner ac aruchel am gariad y Tad Nefol, a thrwy hyny, yn rhoddi i ni lawer o gysur pan y byddem, heblaw hyny, yn llawn o anobaith ac arswyd euog. Mae wedi llefaru wrthym am y byd arall hwnw o ysprydoedd mewn geiriau nad ydynt yn gadael yr un petrusdod yn ein meddyliau am ei fodolaeth. Mae wedi ein dysgu i fod yn ymostyngol i ewyllys ein Tad Nefol, dan yr amgylchiadau mwyaf chwerw, ac wedi dangos i ni pa fodd i gwrdd ag angeu gyda gwir wroldeb ac ymostyngiad.

Beth, yn wir, allasem ni wneyd heb Grist? A gawn ni ddim llefain gyda'r apostol, "Arglwydd, at bwy yr awn ni? Genyt ti mae geiriau y bywyd tragwyddol."

Fy nghyfeillion, goddefwch i mi ddweyd, wrth ddiweddu, y dylem gofio, os derbyniwn ni Grist fel ein Hiachawdwr yn y goleuni ag yr wyf wedi ei osod allan i chwi, ni a gymmerwn arnom ein hunain waith nid bychan. Os derbyniwn yr Iesu fel hyn, yr ydym yn cymmeryd arnom ein hunain gyfrifoldeb mawr. Gosodir ef felly o'n blaen fel esiampl ac Athraw Mawr. Gwna yn wir ein helpu ni tuag at y bywyd tragwyddol; ond nis gall wneyd y cyfan drosom. Mae genym ni,

wedi'r cwbl, ei help i weithio allan ein hiachawdwriaeth ein hunain, er fod hyny mewn ofn a dychryn. Gweithiodd yr Iesu yn galed yn y byd hwn er lles ei gydgreaduriaid, ac os ydym ni yn ei dderbyn fel ein Hiachawdwr, rhaid i ninau hefyd gymmeryd ein rhan, nad mor isel, yn y gwaith mawr o waredu holl ddynolryw.

Ni ddysgir yma un athrawiaeth o aberth iawnol. Bu Crist farw drosom, ac i'n gwaredu, os yn bossibl, rhag pechod; ond ni ddyoddefodd, ac ni fu farw yn ein lle. Bu farw farwolaeth greulawn, oblegyd fod dynion yn ddigon calongaled a chul i erlid y sawl oeddynt yn gwrthwynebu eu syniadau hwy, ac yn dynoethi eu rhagrith, eu pechod, a'u trachwant. Bu farw yn ferthyr i'r gwirionedd, ac felly, daeth yn esiampl i bawb a ddelent ar ei ol, fel y gallent ddysgu y wers bwysig, yn hytrach na bod yn anffyddlon i gydwybod ac i Dduw, ei bod yn well i wynebu pob peth—barn dda cyfeillion, gwawd yr anwybodus; ydyw, mae'n well o lawer i wynebu marwolaeth greulawn.

A gawn ni i gyd wneyd ein goreu i ymgodi i'r safon hono o ddaioni, o gariad a gwirionedd, ag a ddangosodd yr Iesu mor gyflawn yn ei fywyd a'i gymmeriad? Os y gwnawn ni ein goreu i'w ddylyn, yna deled a ddelo—ni fydd eisieu i ni ofni yr annghlod, ac ar derfyn ein dyddiau ar y ddaear, ni a orphwyswn mewn heddwch, gan deimlo'n hyderus fod Duw yn dda, ac na wna un cam nac annghyfiawnder, ac os ydym wedi dylyn Crist, bydd yr oll yn iawn ac yn dda.

LLWYNRHYDOWEN.

Emyn cyfansoddedig ar gyfer agoriad y Capel Newydd, 1879. *Gan y diweddar Barch. W. Thomas* (*Gwilym Marles*).

"*Diolch iti, Dad ein bywyd,*" *&c.*

Lord! we thank Thee for this refuge,
  Whither we may safely flee
From our sorrows and our troubles,
  And find peaceful rest in Thee:
May Thy Holy Word be uttered
  Here in accents strong and clear;
May the Cross of Jesus ever
  Hallow every purpose here.

Hither may the toilworn pilgrim,
  Seeking shelter, boldly come;
Here the wanderer, returning,
  Find a welcome and a home.

Dried be all the tears of sorrow,
  Scattered every gloomy fear;
In the loving bonds of Jesus,
  May all be united here.

Here may all the siren voices
  Of this world's deceit be hushed,
And the strength of evil passions
  By Thy Holy Spirit crushed;
May Thy loving power control us,
  And Thy grace among us grow;
May the streams of life eternal
  Here unceasing sweetly flow.

Smile upon us still and bless us,
  To our efforts succour lend;
Lead us in the path of duty
  Till we reach our journey's end:
And when comes the time for resting—
  All our earthly labours o'er,
Grant us, Lord, a glorious meeting
  On Thy happy heavenly shore.

—*November* 28, 1888.

YMWELIAD A CHAPELI CYMREIG.

(Parhad o'r rhifyn diweddaf.)

Capel hynafol arall yn Sir Forganwg yw yr hwn sydd yn Gellionen, ar fryn uchel uwchlaw Pontardawe, gorsaf ar y llinell rhwng Abertawe ac Aberhonddu. Darfu i hen gynnulleidfa ag oedd yn ymgyfarfod i addoliad crefyddol yn Chwarelaubach, gerllaw Castellnedd, ymranu yn fuan ar ol y Chwyldroad yn bump o eglwysi. Aeth un rhan o honynt i Blaengwrach yn Nghwmnedd, ond mae'r capel hwnw wedi ei gau er's llawer o flynyddau,—Mr. Jenkin Williams oedd y gweinidog diweddaf. Sefydlwyd un arall o'r eglwysi hyn yn Gellionen yn y flwyddyn 1692, a darfu iddi ymddadblygu i gynnulleidfa bwysig. Am ryw reswm neu gilydd, yr oedd nifer yr aelodau, yn y blynyddau diweddaf, wedi lleihau yn fawr, ond mae y Parch. W. J. Davies, o Dowlais, yn ddiweddar wedi cymmeryd at ofal y gynnulleidfa. Mae yn anhawdd iddo ef gyrhaedd yno o'i gartref, ac nis gall ymweled a hi bob Sul, ond mae wedi bod yn alluog i gasglu cynnulleidfa dda yn ngwasanaeth y boreu yn Gellionen, ac hefyd yn yr hwyr yn yr Ysgoldy sydd yn perthyn i'r capel, ond yr hwn sydd wedi ei ad-

eiladu wrth droed y bryn ar Graig Trebanos. Yr ydys wedi cynnal addoliad crefyddol yn yr Ysgoldy yn fwy neu lai rheolaidd am amryw flynyddoedd, ond mae nifer lluosocaf y sawl sydd yn mynychu'r addoliad yno yn aelodau yn nghapel Gellionen, ac nid ydynt mewn gwirionedd yn ffurfio cynnulleidfa wahanol.

Mae cynnulleidfaoedd ereill yu yr un Sir, yn y Wig, yn Mhenybont a'r Nottais. Buom yn anabl i ymweled a'r rhai hyn, ond yr ydym yn ddyledus i'r Parch. W. Parry am y manylion canlynol o barthed iddynt:—"Darfu i'r Parch. Samuel Jones, M.A., o Brynllywarch, un o'r offeiriaid a daflwyd o'r eglwys, sefydlu ar ddechreu y ganrif ddiweddaf gynnulleidfaoedd yn y Bettws a Phenybont. Arferid ar y cyntaf gynnal gwasanaeth mewn tai annedd, mewn ysguboriau, &c., ond adeiladwyd capeli rywbryd rhwng 1715 a 1720. Mae y capel sydd yn y Bettws yn adeilad bychan diaddurn ar ochr y ffordd nad oes fawr tramwy ar hyd-ddi, yn agos i filldir y tu allan i'r pentref, yr hwn sydd yn sefyll ar ucheldir tua saith milldir i'r ochr ogleddol i Benybont. Nid yw y muriau wedi ei dwbgalchu (*plastered*), ac nid oes nenfwd ar y to. Mainc arw neu ddwy a bord sydd yn gwneyd y tro yn lle pwlpud a seddau. Yr oedd yma gynnulleidfa ardderchog pan oedd yr aelodau yn iawnffyddol, ond wedi iddi ddyfod yn Undodaidd, aeth i lawr hyd at un person, yr hwn a fu farw ychydig flynyddoedd yn ol, ac oddiar yr adeg hono, ymddengys nad oes yma wasanaeth rheolaidd wedi cael ei gynnal.

Yn Mhenybont mae hen gapel Presbyteraidd, lle bu un Mr. Price yn weinidog am lawer blwyddyn. Bu efe farw yn 1739, a chladdwyd ef yn y fynwent gerllaw y capel. Adeiladwyd y capel presenol yn 1795, a chan fod ynddo eisteddleoedd cyfleus i 400 o addolwyr, ymddengys fod y gynnulleidfa ar un adeg yn un fawr. Yn mhen rhyw yspaid ar ol hyn darfu i'r *trustees* wahodd gweinidogion o duedd ryddfrydig i wasanaethu yn y pwlpud, ac fel canlyniad, ymneillduodd mwyafrif mawr y gynnulleidfa, ffurfiasant eu hunain yn gynnulleidfa uniongred neu annybynol, a chodasant gapel newydd, gan adael yr hen un bron yn wag. Bu gweinidog galluog iawn—y Parch. J. E. Jones—yn analluog i luosogi y gynnulleidfa yn rhagor na dau deulu cyfrifol, yn rhifo tua chwech o bersonau. Ar ol marwolaeth Mr. Jones aeth y teuluoedd hyn yn llai eu rhif o herwydd marwolaeth a symmud. Ni chynnelid gwasanaeth cysson, ond cedwid addoliad achlysurol yma am yspaid, yn benaf gan y Parch. D. L. Evans, y pryd hwnw yn broffeswr yn Ngholeg Caerfyrddin. Rhifai y cynnulleidfaoedd o bedwar i ddeuddeg o bersonau, ac weithiai fe grynhoai rhyw ychydig y tu allan i'r drws i wrando, a phryd arall, fe wthiai y bobl mewn oedran, neu hyd y nod blant, y drws yn agored, er mwyn cael cipolwg ar yr ochr fewn. Amgylchynir y fynwent a gwal dew, yn ddeg troedfedd o uchder; yn yr hen amser gorchuddid y ffenestri á chauadleni garw, ond dim ond pen y capel ellir ei weled o'r ystrydoedd.

Pan yr ymsefydlodd y Parch. W. Parry yn Mhenybont, tuag wyth mlynedd yn ol, cychwynwyd gwasanaeth rheolaidd bob boreu Sul. Mynychid y cyfarfodydd hyn gan ddau Undodwr ernest a deallus, yn

nghyd ag ychydig bach o gyfeillion ereill. Darfu i bregeth o eiddo Mr. Parry gael ei chofnodi yn un o'r newyddiaduron lleol, dylynwyd hyn gan ohebiaeth, deffrowyd ymchwiliad, a chynnyddodd nifer y gwrandawyr i 30 neu 40. Adnewyddwyd a gosodwyd y capel mewn trefn dda, a rhoddwyd *American Organ* yn anrheg gan un o'r aelodau. Wedi i'r newydd-deb hwn golli ei ddyddordeb, ciliodd rhai, ond darfu i ychydig bersonau o ddylanwad, aros. Mae y gwasanaeth 'nawr yn achlysurol, a nifer y gwrandawyr o 20 i 30.

"Mae Penybont yn dref farchnad, gyda phoblogaeth o 4,000, ac mae'r ardal yn dew o boblogaeth. Saif y capel ar ochr heol fawr mewn rhan gyfleus o'r dref, a dichon y byddai ymdrech egniol, gydag ychydig o help y tu allan, yn foddion i ddwyn cynnulleidfa gryno at eu gilydd yn mhen fawr blynyddoedd. Gwaddolwyd y ddau gapel hyn yn y Bettws a Phenybont yn y flwyddyn 1711 gan y Parch. Rice Price, â fferm o gylch deg erw ar ugain, dan yr hon y dywedir fod mwnoedd gwerthfawr, yn nghyd a £400 neu £500 yn y *Funds*, oddiwrth pa rhai y ceir swm flynyddol o tua £30.

"Y Wig sydd bentref bychan chwe' milldir i'r De o Benybont, gyda phoblogaeth o yn agos i 300, ac mae pentrefi ereill yn y gymmydogaeth amgylchynol yn gwneyd cyfanswm y trigolion tua wyth cant neu fil. Mae ynddo dri lle o addoliad. Yr oedd ein capel ni, ar y cyntaf yn annedd-dy, a throwyd ef yn dy addoliad yn y flwyddyn 1792. Yr ydys wedi ei wella o dro i dro, ac y mae 'nawr yn gapel bychan cysurus, yn gallu cynnwys tua 200 o addolwyr. Saif mewn mynwent fawr ragorol. Bu yma unwaith gynnulleidfa gref, ond darfu i amgylchiadau effeithio ar y mynychiad am dymhor. Mae y gynnulleidfa yn gwella 'nawr etto—y rhan fwyaf o'r aelodau yn ymlynu yn serchus wrth y capel, ac yn ysprydoli eu plant a'r cyffelyb serch. Cynnelir gwasanaeth yn rheolaidd bob Sul, yn y boreu a'r hwyr, y gynnulleidfa yn yr hwyr yn rhifo o 80 i 100. Mae yma gwrdd gweddi bob nos Iau, ac ysgol ar brydnawn Sul, yn nghyd â Banc Cynnilo a *Band of Hope*. Dyoddefa y gynnulleidfa yn fawr o herwydd fod ei haelodau ieuainc yn gorfod ymadael i geisio am orchwylion i cnnill bywiolaeth iddynt eu hunain yn rhai o'r trefydd mawrion, a chwyd cryn anhawsder oddiwrth y ffaith fod yr aelodau henaf yn anabl i fwynhau y gwsanaeth Seisnig, tra mae'r bobl ieuainc yn methu deall fawr Cymraeg. Mae y gynnulleidfa hon, yn gystal a'r un yn y Nottais, mewn cyflwr iachus a gweithgar. Yr oedd yr aelodau ar y dechreu yn Fedyddwyr iawnffyddol.

"Nottais sydd bentref bychan tua chwe' milldir i'r De o Benybont. Ychydig i'r Dwyrain mae pentref bychan a elwir y Dre Newydd, ac ychydig i'r De iddo mae Porthcawl, yr hwn sydd yn cynnyddu yn gyflym fel lle godidog i ymgyrchu iddo yn yr Haf; mae iddo borthladd o ba le y cludir llawer iawn o lo a mwn haiarn mewn llongau. Nid yw poblogaeth yr ardal dros fil. Ychydig flynyddoedd yn ol, nid oedd yn y gymmydogaeth hon ragor na thri lle o addoliad, ac o'r rhai'n ein capel ni oedd y mwyaf poblogaidd. Yn awr, mae yno saith o lefydd, heblaw yr Eglwys Sefydledig, yr hon sydd, digon tebyg, yn

blaenori. Yn ein capel ni, cynnelir gwasanaeth yn rheolaidd bob Sul, y boreu a'r hwyr. Mae Ysgol Sul yn y prydnawn, a chwrdd gweddi ar nos Fercher. Dywedir fod y cynnulliad nos Sul o 80 i 100. Unwaith y mis pregethir yma gan un o'r gweinidogion Undodaidd cymmydogaethol. Ar y Suliau ereill, dygir y gwasanaeth yn mlaen gan Mr. Titus Lloyd, mab i'r diweddar Barch. Titus Lloyd, o'r Nottais, a chan Mr. Phillips, ei wyr. Mae y rhagolygon yn dda, gan fod Undodiaid yn debyg o ymweled, ac hyd y nod, ymsefydlu yn Porthcawl. Dechreuodd yr athrawiaethau a ddysgasid ar y cyntaf yn y capel hwn, ac hefyd yn y Wig, gyfnewid tua deng mlynedd a thriugain yn ol, i fod yn Fedyddwyr Cyffredinol, ac Undodiaid. Adeiladwyd capel newydd yn y Nottais yn 1876, i gynnwys tua 250, yn nghyd ag Ysgoldy, y rhai a gostiasant yn agos i £600. Mae yr *Oddfellows* ar ben blwyddyn yn cyrchu i gapel y Wig i gynnal addoliad crefyddol, ac mae yn well gan lawer o Annghydffurfwyr iawnffyddol fynwent ein capel ni na mynwentydd ereill yn gladd-le eu meirw. Dim ond yr allanol o'r capel destlus yn Abertawte a fuom yn abl i'w weled. Methasom ag ymweled a'r capel newydd yn Nghaerdydd."

CALANIADUR CYMREIG.

Ionawr.

1, 1811, bu farw y Parch. Benjamin Davis, Evesham. Ganwyd yn y Goitre, ger Llanbedr, 1756. Brawd D. D., Castell Hywel.

1, 1776, bu farw Sion Llewelyn, Cefncoed, ger Merthyr, yn 85 oed.

2, 1711, claddwyd y Parch. Mr. Phillips, ieu., yn 24 oed. Mab y Parch. Philip Charles Cefncoed. Yr oedd yn fyfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin ar adeg ei farwolaeth.

5, 1767. Etholwyd Samuel Thomas yn weinidog yn Dublin (g. 1738, m. 1786). Ei wraig oedd unig ferch y Parch. D. Evans, Drewen. Yr oedd yn gefnder i Dafydd Llwyd.

7, 1720, ganwyd y Parch. Thomas Morgan, Henllan. Bu farw, 1799. Gadawodd Ddyddiadur gwerthfawr ar ei ol.

8, 1833, Reuben Davies, Prydydd y Coed, yn 25 oed.

9, 1865, Parch. Owen Evans, Cefncoed, yn 57 oed.

10, 1827, Dr. John Jones (Lexiographer). G. 1766.

11, 1866, George H. Palmer; boddodd yn y *London*, yn y Bay of Biscay. Gwel *Athraw*.

13, 1848, Benjamin Isaac, Manmoel, Bedwellty, yn 87 oed.

13, 1844, y Parch. David Peter Davies, awdwr *History of Derbyshire*.

14, 1884, y Parch. E. W. Humphreys, Yellowspring, Ohio, yn 68 oed.

Ganwyd yn Storws Wen, Cei Newydd, Ionawr 9. 1785,

15, 1853, y Parch. D. John, Merthyr, yn 71 oed.

16, 1806, y Parch. Samuel Price, Bridgend, yn 49 oed.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID GWIRONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL XIII.

1888.

ABERDAR:
JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, COMMERCIAL PLACE.
1888.

CYNNWYSIAD.

Anfarwoldeb 179
Angel yn ddiarwybod 105
A fu golledig ac a gafwyd 128
Athraw yr Athrawon.. 249
At y Darllenydd 1

Beth yw Uffern 60
Byrgofion am Enwogion Cymreig 132

Cân y bugail dychweledig.. 237
Capel y Llwyn 100
Coleg Caerfyrddin—Y Brotest .. 90
"Compensation Clauses" 200
Crefydd Fyw 64

Dathliad yr Wythau—1588, 1688, 1788, 1888.. 230
Dos at y Morgrugyn 222
Dr. Pan Jones a'r *Celt* 249
Dr. Vance Smith ar Lyfr Job .. 29
Dyn fel addolwr 208

Emyn 156
Ein Heglwysi 283

Gair yn ei bryd 11
Genedigaeth Iesu Grist.. .. 2, 25, 49
Gobeithion a buddiannau bechgyn 227
Gweddi'r Arglwydd 155
"Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain".. 246
Gwyddor a Chrefydd.. 78

Hen ffyddloniaid Gellionen.. .. 270

Iawnderau dyn 241, 265
Iesu Grist fel Creawdwr 13

Llyfrau Newyddion 157

Manion a Hanesion 22, 46, 70, 96, 118, 143, 165, 191, 215, 238, 263, 286.
Marwgofion 24, 48, 71, 118, 144, 167, 192, 216, 240, 264, 288.
Mewn Priodas Iuddewig 33
Moesau Masnach 254
Molwch Dduw 11
Mynegfys.. 108

NodynauGwasgarog 18, 42, 66, 111, 140, 159, 186, 205, 233, 259, 278.

O! mae'r Haf yn hyfryd 196
O Worship the King 52

Pa ddaioni i ni yw Genedigaeth Crist 77
Peidiwch Lladd yr Adar 149
Pregeth 169, 193, 217, 267
Pregethwyr yn ysmocio 41
Presbyterian College, Carmarthen.. 256
Prif Gadair Coleg Caerfyrddin .. 135

"Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd" 29
Sul yn Llundain.. 197

Undodiaeth yn Nghymru 62, 100, 125

William Henry 57
Wyth pennill i "Gymru Fydd".. 172

Y Beibl.. 17
Y Bwthyn Dedwydd 285
Y Byd Gwleidyddol 83, 173
Y Coryn 151
Y Cryf a'r Gwan yn y Ffydd .. 145
Y Cwrdd Blynyddol.. 184
Y Cyrddau Chwarterol .. 53, 109, 251
Y Deg Gorchymyn mewn Cynghanedd Unodl Union 284
Y diweddar Cynonwyson 244
Y diweddar Henry Richard 220
Y Farn Fyrbwyll 275
Y Gredo Bresbyteraidd newydd .. 175
Y Meddwyn 277
Y Moddion Goreu i gael Diwygiad yn yr Ysgol Sabbothol .. 73, 97, 121
Y Parch. Samuel Jones, Capel Seion 104
Y Parch. Thomas Evans, Aberdar 81
Y Peiriannydd Bach 35
Y Pwnc Addysg unwaith etto .. 245
Y Rhesymau dros Ddadsefydliad a Dadwaddoliad yn Nghymru.. .. 149
Y Tusw Blodau 85
Y Tŷ ar y Bont 201
Y Tŷ Gwag 219
Ymweliad a Chapeli Cymreig .. 271
Ymchwil ar ol dedwyddwch 178
Ymweliad ag Abertawe.. 54
Yr Hen Amser Gynt 124
Yr Ysmotyn 15
Yr Ysgol Sul yn feithrinfa i'r Eglwys 224

18, 1871, y Parch. Thomas Griffiths (Tau Gimel), yn 73 oed.

20, 1820, y Parch. Eliezer Williams. Ganwyd 1754. Sylfaenydd Ysgol Rammadegol, Llanbedr, 1805.

23, 1714, ganwyd y Parch. Howel Harris, sylfaenydd Methodistiaeth.

25, 1802, y Parch. Evan Grffiths, Capel Seion. Ganwyd 1724, ger Llanbedr.

25, 1827, M. Dr. John Evans, Islington. Gwerthodd *copyright* y *Sketch of All Denominations* am £10, yr un swm ag a dalwyd am Emynau Watts a *Choll Gwynfa* Milton.

25, 1852, y Parch. Thomas Bowen, Walsall, yn 87 oed. Ganwyd ger Llanbedr.

26, 1810, y Parch. John Symon, Mynyddbach, yn 32 oed.

27, 1845, y Parch. Richard Evans, Abertawe, yn 71 oed.

28, 1785, ganwyd y Parch. Samuel Price, Llanedi.

29, 1846, T. H. Jones, Neuaddfawr, yn 69 oed.

29, 1833, y Parch. Thomas Evans, Aberdar, yn 68 oed.

29, 1865, y Parch. John Davies, Castellnedd, yn 67 oed. Mab Timothy Davies, Ffosfin, Cellan (1753—1813).

31, 1818, y Parch. Griffith Griffiths, Llechryd. Ganwyd 1724. Tad Tau Gimel.

ETHOLIAD Y CYNGHORAU SIROL.

Dyma hoff destyn siarad pob Cymro braidd yn y wlad y dyddiau hyn. Mae rhywbeth yn y gair, "etholiad," ag sydd yn cario rhywfath o swyn gydag ef, fel y mae ar unwaith yn tynu sylw mwyaf blaenllaw y rhan fwyaf o'n cydgenedl; ac nid wyf am faentumio am funyd nad yw hyn yn iawn. Y mae yn iawn; y mae yn naturiol; ac nis gallwn yn hawdd ei wrthwynebu. Y mae hyn i'w briodoli yn benaf i'r ffaith ein bod, fel cenedl, wedi gosod ein bryd yn gymmaint ar gael rhyw ddiwygiadau neillduol, fel y teimlwn yn falch i gael y cyfleusdra a roddir i ni gan etholiad i ddatgan ein barn yn nghylch y cyfryw; ac y mae etholiadau, o ba natur bynag y byddont, yn creu bywyd yn y genedl, ac nid yw cenedl heb fywyd yn genedl werth son am dani, a thueddant, trwy greu bywyd yn y genedl, i dynu sylw dynion at y pynciau mawrion sydd yn gwynebu cymdeithas, ac sydd ag eisieu en penderfynu.

Ni fu hyn yn fwy gwir am un etholiad nag am yr etholiad, neu, yn hytrach, yr etholiadau sydd ar bwys. Rhyfedd yw meddwl am yr holl ferw sydd drwy yr holl wlad yn mhob man, a'r fath fywyd a ganfyddir ar bob llaw, ac y mae dynion sydd heb erioed o'r blaen gymmeryd nemawr ddyddordeb yn y pynciau pwysig sydd wedi bod yn cynhyrfu gwahanol ddosparthiadau cymdeithas, yn chwilio i fewn iddynt, ac yn ceisio cael allan pa beth fydd eu heffaith yn eu cyssylltiad â hwy. Pe na fuasai y gyfraith hon, sef Cyfraith y Llywodraeth Leol, wedi

gwneyd un daioni arall, buasai ei gwaith yn creu y dyddordeb hwn yn mhynciau pwysig y dydd yn ddaioni mawr.

Dywed rhai nad yw y gyfraith hon o nemawr gwerth—nad yw ond megys asgwrn heb gnawd. Dichon nad yw yn agos yr hyn a ddylasai fod, ac y mae yn sicr y bydd yn rhaid gwneyd cyfnewidiadau pwysig ynddi, a hyny yn fuan; bydd yn rhaid rhoddi mwy o awdurdod yn llaw y Cynghorau Sirol nag a roddir yn bresenol. Ond er gwaethaf a ddywed dynion yn y gwrthwyneb, y mae yn ddechreuad da, ac efallai mai nid doeth fyddai beichio yr awdurdodau newyddion â gormod gwaith ar y cyntaf. Gellir dweyd hyn am y gyfraith fel y mae—ei bod yn gorphwys ar y sail iawn, ac nad oes eisieu yn mhellach ond goruwchadeiladu ar y sail hon.

Dywedais fod y gyfraith fel y mae yn dda; yn ol barn rhai dynion, y mae yn rhy dda o lawer. Y mae y Blaid Doriaidd yn methu deall pa eisieu'r gyfraith hon oedd. Chwerthinus yw meddwl am ystranciau y bobl hyn, ac yn enwedig yr ynadon, i berswadio y bobl gyffredin rhag cymmeryd mantais ar y cyfleusdra a osodir yn eu gafael. Maent bron myned yn wallgof wrth feddwl fod yr awdurdod sydd wedi bod am gyhyd o amser yn eu dwylaw ar gael ei thynu oddiwrthynt. Ond etto, dylent gofio mai o ffrwyth eu gweithredoedd eu hunain yn y gorphenol y gorfodir iddynt fedi yn awr. Onid ydynt wedi ein gormesu, wedi ein cadw dan eu traed, wedi gwneyd eu goreu i gadw y breintiau sydd genym allan o'n gafael, ac nid ydym etto wedi llwyr annghofio, ac nid yw yn debyg yr annghofiwn yn fuan ychwaith eu hymddygiadau barbaraidd tuag at y rhai a'u gwrthwynebent yn 1868. Mae y bendefigaeth hyd yn hyn wedi bod yn ymladd yn erbyn y werin ar bob cyfleusdra possibl; ac yn awr, pan yr ydym ni, fel Rhyddfrydwyr ac Ymneillduwyr, wedi cael y cyfleusdra, gobeithio y cofiwn am danynt yn dda.

Un o grioedd y Blaid Doriaidd mewn cyssylltiad â'r etholiad hwn ydyw, "Dim gwleidyddiaeth." Maent yn methu yn deg â deall beth sydd a fyno gwleidyddiaeth â'r etholiadau hyn. Ond ai tebyg y buasent hwy yn peidio gwneyd defnydd o'r cri hwn pe buasai ganddynt unrhyw obaith y rhoddai hyny rywfaint o gymhorth iddynt gael eu hethol ar y Cynghorau Sirol? Ac yn mhellach nâ hyn, a ydyw y Toriaid wedi cadw gwleidyddiaeth allan o'u gweithrediadau yn y llysoedd chwarterol? Gadewch i ni gael dwyn hyn i brawf. Pa nifer o ynadon presenol Cymru sydd yn Doriaid? A pha nifer o honynt sydd yn Rhyddfrydwyr? Y mae yn fater ag sydd wedi tynu cryn dipyn o sylw yn ystod y blynyddau diweddaf can lleied o Ryddfrydwyr sydd yn eistedd ar y fainc ynadol yn ein gwahanol siroedd.

Pe byddem ond cymmeryd Sir Gaerfyrddin fel enghraifft: dywedir nad oes ond tri Rhyddfrydwr wedi cael yr anrhydedd hwn yn y sir hon. Mae y gosodiad hwn wedi ei wneyd mewn amryw o'n newyddiaduron, ac nid oes un gwadiad wedi ei wneyd iddo hyd yma. Gan hyny, gellir cymmeryd ei fod yn ffaith. Yn awr, a ydyw yn bossibl nad oes ond tri Rhyddfrydwr yn y sir yn meddu ar y cymhwysderau meddyliol angenrheidiol i eistedd ar y fainc ynadol? Am y cymhwys-

derau arianol, gwyddom am luoedd sydd yn eu meddu. Paham, ynte, nad oes rhagor nâ thri Rhyddfrydwr yn eistedd ar y fainc ynadol yn Sir Gaerfyrddin? Ai nid oes ateb i'r gofyniad hwn i'w gael yn y ffaith mai Tori yw yr Arglwydd Brif Raglaw, ac felly, nad oes neb yn cael eu gwisgo â'r anrhydedd hwn os na fydd yn un o deulu'r ffydd? Ac yn hyn nid yw siroedd ereill Cymru nemawr iawn gwell.

Ond nid dyma'r unig reswm sydd genym dros gario yr etholiadau hyn yn y blaen ar dir gwleidyddol. Hwn yw y rheswm gwanaf, a phe na fuasai genym resymau cryfach nâ hwn dros y cwrs a gymmerwn, ni fuasai yn werth braidd myned i'r drafferth yn ei gylch. Yn awr, y mae gyda ni yn Nghymru amryw bynciau pwysig ag eisieu eu penderfynu.

Yr ydym yn gofyn am Ddadgyssylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys, ac nid yn unig yn gofyn am dano, ond yr ydym yn myned i'w *fynu*, ac os na cheir ef trwy deg, bydd yn rhaid i ni ei gael trwy arw. Yr ydym, fel cenedl, wedi bod yn ceisio am Ddadgyssylltiad am yn agos i ddeugain mlynedd, efallai ragor, ac yr ydym wedi dangos yn mhob modd dichonadwy fod ein cais yn un cyfiawn. Ond nid oes gwrandawiad yn cael ei roddi i'n cais hyd yn hyn.

Yn mhellach, mae pwnc yr addysg yn ei wahanol agweddau yn ein blino. Y mae arnom eisieu cael rhyw benderfyniad ar y pwnc hwn. Yr ydym am gael ein gosod ar yr un tir â'r Saeson, yr Ysgotiaid, a'r Gwyddelod; ac nid ydym yn myned i osod ein harfau i lawr nes y byddom wedi cyrhaedd y safle hon.

Yn mhellach etto, mae pwnc y tir yn un a ofyna am gael ei benderfynu. Yn bresenol nid yw y deiliad yn amgen nâ slaf: nis gall symmud braidd heb ganiatad ei feistr; ac y mae yn gorfod dyoddef tlodi er llanw coffrau ei feistr. Yr ydym wedi bod yn danfon aelodau i Dy y Cyffredin a gyfenwent eu hunain yn Rhyddfrydwyr gyda'r gobaith y gwnelid rhywbeth ganddynt er amddiffyn yr amaethwr rhag crafangau ei dirfeistr, ac etto, nid yw ein gobaith wedi ei sylwoddoli. Yr ydym bron blino dysgwyl yn y modd hwn. Y mae yn rhaid i ni gymmeryd rhyw fesurau amgenach i gyrhaedd ein hamcan.

Ac yn awr, yr ydym yn myned i wneyd y Cynghorau Sirol yn gyfryngau i gario llais y wlad gerbron yr awdurdodau; yr ydym yn myned i'w gwneyd yn gynghorau, aelodau y rhai fyddant yn cydfyned â'r teimlad cenedlaethol, ac yn foddlon ymladd dros iawnderau y bobl, a hyny hyd at farw os bydd angen; yr ydym yn myned i wneyd y cynghorau yn ddylanwad ac yn allu gwladol i fynu i ni y diwygiadau a'r gwelliantau sydd yn eisieu arnom. Hyd yn hyn y mae bod yn Gymro bron yn ddieithriad wedi bod yn rhwystr i ddynion ieuainc ein cydgenedl i gael eu gosod yn y prif swyddi, ac yn enwedig felly bod yn Rhyddfrydwr. Yr ydym yn myned i ethol cynghorau, gobeithio, a roddant ben ar ymddygiadau anmharchus ein llywodraethwyr yn y gorphenol tuag atom. Gobeithio y rhydd Cymru y fath gyfrif o honi ei hun ar ol yr 31ain o Ionawr ag na fydd eisieu i un Cymro twymgalon wrido wrth feddwl am dano—cyfrif a ddangoso ein bod yn cymmeryd mantais ar y gallu hwn a roddir i ni, ac na olygwn laesu ein dwylaw yn fuan.

CYMRY ANNGHOFIEDIG.

(*Gwel* Ymofynydd, *Rhagfyr*, 1887; *Mehefin*, 1888).

HENRY WILLIAMS,

Neu Henry William Thomas, sydd enw a gwrddir mewn cyssylltiad ag Annghydffurfiaeth yn nghymmydogaeth Merthyr Tydfil. Bernir mai yr un yw a'r H. Williams a drowyd allan o Eglwys Blwyfol Llantrisant gan Ddeddf Unffurfiaeth (1662). Desgrifir ef fel dyn gonest, ond dyn gwan, gan Dr. Calamy. Ni oddefai ei gydwybod iddo dderbyn degymau tra y bu yn gwasanaethu Plwyf Llantrisant; ond derbyniai £60 o'r Trysorlys. Pregethai yn fynych yn Eglwys Merthyr yn amser y Werin-lywodraeth. Efe oedd gweinidog yr Eglwys Ymneillduedig yn Merthyr, o 1669 hyd 1675, os nid yn ddiweddarach. Ni wyddys pa bryd y bu farw. Yr oll oedd gan ei elynion i'w ddywedyd yn ei erbyn oedd iddo fod yn gadben yn myddin y Senedd yn amser y rhyfel, ac nad oedd yn deall un iaith ond y Gymraeg.

HENRY MAURICE.

Mab ieuangaf Griffith Maurice, o Methlan, yn Lleyn, Sir Gaernarfon, oedd ef. Derbyniwyd ef i Goleg Iesu, Rhydychain, yn 1652. Treuliodd ei febyd yn wyllt ac anystyriol, a dywedir ei fod yn falch am beth amser wedi dechreu pregethu. Ceir hanes tra helaeth am dano gan Dr. Rees yn *Eglwysi Annybynol* (II., 253). Yr oedd yn wasanaethgar iawn i achos Annghydffurfiaeth yn yr ardal o 1672 hyd ei farwolaeth, Gorphenaf, 1682. Dywedir ei fod yn un o'r dynion mwyaf duwiolfrydig, llafurus, a llwyddiannus yn ei oes, ac yn byw mewn cymmundeb diattal â'i Arglwydd. Gwasanaethu ei Feistr oedd prif waith a hyfrydwch ei fywyd. Yr oedd yn bregethwr eglur, trefnus, a nodedig o effeithiol. Anfynych y pregethai heb wylo.

ROGER WILLIAMS

Sydd enw i'r hwn y mae clod yn ddyledus am ryddfrydigrwydd ei syniadau. Yr oedd yn un o'r rhai cyntaf i dori yn erbyn Calfiniaeth yr oes. Ychydig neu ddim wyddys am foreu ei hanes. Tebyg mai yn Ysgol Ystradwallter, gyda Mr. Rees Prytherch, y derbyniodd ei addysg. Urddwyd ef yn 1698, a pharhaodd yn weinidog nerthol a chymmeradwy hyd ei farwolaeth, Mai 25, 1730, pryd oedd yn 63 oed. Bu ei wraig Catherine fyw 13 mlynedd ar ei ol. Tybia Dr. Rees mai efe oedd y cyntaf o'r Ymneillduwyr a bregethasant Arminiaeth, a chredai efe fod cryn wrthwynebiad iddo yn Nghwmyglo. Yr oedd Sion Llewelyn yn barchus iawn o hono. Fel hyn y dywed:—

Wedi marw Rosser Wiliam,
Gwr oedd a'i lwybr megys Abram,
A'i symmud ymaith trwy farwolaeth;
Ni wyddwn beth a wnawn gan hiraeth;
Gwrando hwn a gwrando arall,
Weithiau'n dotio, weithiau'n deall;
Rhai'n gwledda'n fras ar seigiau cyfain,
A minau'n wylo am fwy o halen.

RICHARD REES

o'r Gwernllwyn Uchaf, a urddwyd yn weinidog Cwmyglo tua 1732, yn gydweinidog â Mr. James Davies, yr hwn oedd Uchelgalfiniad. Bu yno hyd yr ymraniad a sefydliad yr achos newydd ar Gefncoed yn 1747. Efe oedd y gweinidog cyntaf yno, a pharhaodd yn fawr ei barch a'i ddylanwad hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le Awst 23, 1749, cyn ei fod yn 40 oed. Yn 1754, cyhoeddodd ei ganlyniedydd, Mr. Phillip Charles, dair o'i bregethau dan yr enw "Gwirionedd y grefydd Grist'nogol, a dull y farn fawr." Dywed Dr. Rees am dano, "Er ei fod yn wr cyfoethog a dysgedig, yn ddyn hynod am ei ostyngeiddrwydd a'i addfwynder, a'i fod yn ddyn defosiynol a chrefyddol iawn, gadawai bob gofalon bydol i'w wraig, ac ymroddai yn hollol i fyfyrdodau crefyddol." Gellir gweled carreg ei fedd yn mynwent Eglwys Merthyr. Bu farw Mrs. Mary Rees yn 68 oed, Tachwedd 6, 177†.

R. Rees oedd awdwr yr emyn "Gwlad dda yw'r nefol wlad," a cheir aralliad rhagorol o Salm xix. o'i waith yn Llyfr Josiah Rees, ac yn yr *Eurgrawn Cymraeg*, ac yn Nhraethodau Llenyddol y Dr. Lewis Edwards o'r Bala.

SAMUEL DAVIES

oedd fab i Mr. James Davies, y gweinidog. Yr oedd y tad yn Galfin, y mab yn Armin. Bëid y tad yn fawr am oddefyn y mab yr hyn a geryddai yn Richard Rees. Desgrifir Samuel Davies, yr hwn a ddygwyd i fyny yn Nghaerfyrddin, gan Mr. Thomas Morgan, un o'i gydfyfyrwyr, fel "gwr ieuanc difrifol, yn meddu cymhwysderau neillduol at y weinidogaeth. Urddwyd ef yn Merthyr i fyned yn weinidog i Kingswood yn Wiltshire, yn 1746. Pregethwyd yn ei urddiad gan Mr. George Palmer, Abertawe, a Mr. David Thomas, Castellnedd. Dychwelodd o Kingswood i Ferthyr yn 1750, i gynnorthwyo ei dad, ac i ymdrechu adferu heddwch, ar ol yr ymraniad a gymmerasai le yno. Priododd yn Merthyr yn 1752." Dywed Dr. Rees iddo adferu rhyw fath o heddwch, ond iddo wneuthur hyny trwy bregethu athrawiaeth groes i'r hyn a bregethasid gan ei dad trwy ei oes. Mae Mr. Phillip Dafydd, Penmain, yn ei ddyddlyfr yn cyfeirio yn fynych at athrawiaeth Samuel Davies, ac yn tystio na fyddai un amser yn pregethu dim o neillduolion yr Efengyl, ond yn unig y dyledswyddau moesol. Bu farw Mawrth 18, 1781, a chladdwyd ef wrth gapel Ynysgau.

PHILIP CHARLES

oedd olynydd Mr. R. Rees yn Cefncoed. Nai oedd i Philip Dafydd, Penmain. Mae yn debyg nad oedd yr ewythr yn ystyried y nai yn ddigon iach yn y ffydd. Mae yn debyg iddo yn niwedd ei oes gymmeryd y cyfenw Philip yn lle Charles. Fel hyn ar garreg ei fedd :—"Of the above named Rev. Mr. Phillips, who was for 41 years pastor of this congregation. He died the 19th May, 1790.

Bydded i'r rhai rybuddiais
O ran Duw'n llwyr wrando'm llais.
Efengyl Crist rhag tristwch
A llef wedi myn'd i'r llwch.
Cofiwch orphwysfa'r cyfiawn
A lle'r di-Dduw llerw di-ddawn."

THOMAS DAVIES

a ddylynodd Mr. Charles. Tebyg mai un o ardal Llandyssul oedd, ond nid oes genyf fanylion. Bu yn ysgol Castell Hywel, o leiaf bu yn ysgol D.D. Ceir englynion iddo yn *Nhelyn Dewi*. Ceir y goffadwriaeth hwn am dano :—"Sacred to the memory of the Rev. Thomas Davies, who was 42 years minister of this chapel, and died the 10th day of March, 1832, aged 73 years."

HENRY GREGORY

Oedd Fedyddiwr, ac efallai Arminiad ; o leiaf, dywedir fod ei bobl fwyaf o honynt yn Arminiaid. Yr oedd ei eglwys yn cwrdd yn nhŷ un Peter Gregory, yn Mhlwyf Llanddewi Ystradeni, yn Sir Faesyfed. Tybia Dr. Rees, Abertawe, mai efe oedd yr unig bregethwr Arminaidd yn yr oes hono. Aeth trwy lawer o ddyoddefiadau yn ei ddydd. Caffai ei erlid a'i yspeilio mewn llawer dull a modd. Tybid fod barnedigaeth wedi dyfod ar draws amryw o'i erlidwyr, ac y mae yn ddiamheu fod rhagor nag un o honynt wedi gweled achos i edifarhau am eu hanfadwaith. Bu farw 1700, yn 63 oed ; yr oedd felly yn 25ain oed pan basiwyd deddf Unffurfiaeth.

Y PARCH. EVAN GRIFFITHS (1725—1802).

Yr oedd yn enedigol o rywle yn nghymmydogaeth Llanbedr. Derbyniodd addysg dda, ac ystyrid ef yn gyffredin yn ddyn dysgedig. Ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth yn 1752, yn nghapel Seion, plwyf Llanddarog, Sir Gaerfyrddin, lle y bu am hanner can' mlynedd yn weinidog poblogaidd a llwyddiannus, a chynnyddodd y gynnulleidfa yn fawr dan ei weinidogaeth ; er na ddarfu iddo ddianc y cyhuddiad o heresi. Gelwid ef yn Ariad, Arminiad, Pelagiad, enwau cas bob un yn ngolwg y rhai a'u defnyddient, ac enwau ar y pryd yn niweidiol i

boblogrwydd dyn. Nid oes amheuaeth nad oedd yn ddyn o syniadau rhyddfrydig, yn foneddwr trwyadl, ac yn Gristion a gerid gan ei gynnulleidfa a chan bawb a'i hadwaenent, a chan y rhai hyny yn oreu a'i hadwaenent yn oreu. Mae ei Feibl, yr hwn sydd hyd heddyw yn meddiant perthynas iddo, sef Mrs. Margaret Davies, Llanbedr, yn cynnwys y geiriau hyn mewn ysgrifen, "Evan Griffiths's Book, given him on condition of his settling in Wales to preach the Gospel, A.D., 1750." Er yn meddu cymhwysderau i lanw cylch pwysig, ni wnai ei gariad at ei wlad a'i geraint ganiatau iddo symmud. Bu farw Ionawr 25, 1802, yn 77 oed.

Bu mab iddo, sef George Price Griffiths, yn cadw siop yn Heol Awst, Caerfyrddin, am rai blynyddau. Yr oedd yn briod a Saesnes, ond ni fu iddynt blant.

Ceir dau emyn o'i eiddo yn Nghasgliad Josiah Rees, sef rhif 12 a 27; "Wele y Bod tragwyddol, pur," 6 pennill, M.C.; a "Rho'wch glust chwi, ie'nctyd glân," 6 pennill.

Cyhoeddodd

(1). Golwg fer ar yr Hanes Ysgrythyrol oll; gyda Hanes yr Eglwys Iuddewig o ddiwedd yr Hen Destament hyd at Grist, a'r proffwydoliaethau penaf perthynol iddo: wedi ei hegluro'n ddigonol mewn Ffordd o Holiad ac Ateb, yn nghyd ag amryw nodau ar Hanes a Chrefydd y Patriarchiaid, yr Iuddewon a'r Crist'nogion, ac ar Ddeddfau, Llywodraeth, Sectau, Defodau, a 'Sgrifeniadau yr Iuddewon. Gan J. Watts, D.D., a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan y Parchedig E. Griffiths, at yr hon yr ychwanegwyd Llechres o'r amseroedd yr ysgrifenwyd Llyfrau yr Ysgrythyr, a'r pethau hynotaf o Ddechreuad y Byd hyd Ddinystr Jerusalem. Allan o waith yr enwog Ostervald. Caerfyrddin (Ross), 1775.

2. Y cwestiwn mawr; sef, Pa fodd y myn Duw gadw dyn. Wedi ei egluro mewn pregeth ar Phil. ii. 12, 13, &c. Gan E. Griffiths, G. E. Caerfyrddin (Ross), 1783.

(3) Ail argraffiad o (2) 1785.

ER COFFA SANCTAIDD.

John xiv. 3.

Oni ddelo, caed y geiriau
Oedi'n dyner ar ein tannau:
A'r cydrhwng, ein henaid caffed
Oll mewn euraidd wawr ei weled;
Nef a chartref, boed i'n gofio,
Maent tu hwnt i'r—*Oni ddelo!*

Pan ga'r blin a gâr ein calon
Ddianc fry uwch pob gofalon,

O, mor fawr, mor llwm fydd daear,
O, mor drist ein bywyd hygar!
Ust! ein cwyn yn ddystaw'r elo,
Nid yw ond hyd—*Oni ddelo!*

Pan fo'r byd o'n cylch yn gwasgu,
'Fynem i un tristwch golli?
Nid yw llymdra ein holl groesau,
Nid yw llais ein holl drallodau,
T'wyllwch, angeu, pridd yr amdo,
Ond yn sisial—*Oni ddelo!*

Wele'r bwrdd a'r wledd Er Coffa,
Wele'r gwin ac wele'r bara,
Er cof melus am yr Enw
Sy at y Nefol fwrdd yn galw;
Pell ac agos, man y myno,
Wedi eu rhanu—*Oni ddelo!*

E. H. Bickersteth.

NODYNAU GWASGAROG.

MR. REES JONES (AMNON).

Mewn llythyr at ei frawd—wrth bob tebyg, ei lythyr diweddaf, dyddiedig Chwefror 4, 1844, mae yn gorphen fel hyn (cyfieithad):—

"Nad pa beth sydd o fy mlaen, ni fydd ond daioni fy Nhad nefol at ei blant, a'i ewyllys Ef a wneler.

"Pa bryd y cewch glywed etto nis gallaf ddywedyd. Rhaid i ryw ddyeithr ysgrifenu, nid annghofiaf y cyfleusdra. Ychydig allant ysgrifenu y ffordd hon.

"Rhaid i mi derfynu yn bresenol, gan ddymuno i chwi a'r eiddoch bob daioni presenol a thragwyddol, a chan obeithio cwrdd etto mewn cyflwr mwy rhydd oddiwrth boen, a lle ni fydd marwolaeth mwy.

"Ydwyf, eich brawd,

"Rees Jones."

JOHN EDWARD JONES, BRIDGEND.

Dyma ddyfyniad allan o'i lythyr, dyddiedig Feb. 17, 1831:—

"Happy! thrice happy optimist! that can resolve the suspense, the curses, and the disappointments that we meet with into 'Smiles of uninersal love!" I would not deprive you of your treasure, nor depreciate its value. Full many a time have I sought the grand panacca to alleviate the little miseries and anxieties of my own life. I have ever prayed for the faith that can remove mountains. By faith I

could cheerfully resign myself to the Almighty Father; but still I cannot help regarding pain and misery and ignorance and vice as real though necessary (i.e., unavoidable) evils. Evils I call them; but I agree with you that without them we could not obtain the greater weight of good."

Y CODWM.

Pan glywodd John Foster fod y dysgedigion wedi darganfod eira ar begynau y blaned Mawrth, aeth yn drist iawn. Ymresymai fel hyn, fod yr eira yn golygu oerfel; oerfel, dyoddefaint; dyoddefaint, pechod; a phechod ar blaned arall—estyniad dychrynllyd o'r felldith a'r codwm. Fe'i gwnaeth yn drist, am ei fod yn credu, er mor fawr oedd, fod y byd mawr hardd hwn wedi ei ddryllio a'i ddinystrio yn y cnoad o'r afal; fod gwrryw a menyw mor anmhrofiadol â dau faban, wedi eu gosod mewn sefyllfa i wneuthur drwg nas gwn am ei gyffelyb. Meddyliwn am danaf fy hun yn gosod fy machgen pum' mlwydd ar *locomotive*—agerbeiriant trên mawr, ac yn rhoddi'r *lever* iddo, gyda thuedd gref ynddo i'w droi, a gorchymyn pendant i'w adael yn llonydd; yna ei adael at ei ddyfais ei hun, a'r teithwyr i'w tynghed. Mae y gymhariaeth yn rhy wan i ddesgrifio ofnadusrwydd athrawiaeth gyffredin y codwm.

Mae priodas, fel y wenynen, yn adeiladu ty, yn casglu melusder, llafur, ac yn uno cymdeithas, yn cadw trefn, yn dwyn y rhinweddau i ymarferiad, yn cynnyrchu lles cyffredinol dynolryw, ac felly yn cyfansoddi y cyflwr hwnw ar gyfer yr hwn y mae Duw wedi bwriadu cyfansoddiad presenol y byd.

CAU Y TAFARNDAI AR Y SUL.

Caniatewch i mi, gyda phob tynerwch, ond er mwyn cyfiawnder, i ddywedyd fod y *paragraph* ar y pen hwn, tud. 274, wedi ei gamleoli lle y mae. Nid oes iddo un rhith o wirionedd yn ei berthynas â Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar.

R. J. JONES.

Manion a Hanesion.

Blin genym glywed am afiechyd parhaol y Parch. W. James, B.A., o Landyssul, a'i fod, o'r herwydd, wedi gorfod rhoddi i fyny ofal y cynnulleidfaoedd y mae wedi bod yn gweinidogaethu mor dderbyniol iddynt am gynnifer o flynyddoedd.

Cynnaliodd Ysgol Sul Caeronen ei gwyl dê flynyddol eleni, fel arfer, yn Wern Cottage, Cellan ar yr 17eg o Ragfyr. Yr oedd y plant yn edrych yn y blaen at y wledd gyda dyddordeb a dysgwyliad mawr, ac y mae genym bob lle i gredu na chawsant eu siomi yn eu dysgwyliadau. Erbyn tua chwech o'r gloch, aethpwyd i'r capel i gael gwledd etto i'r meddwl, ac yr wyf yn credu mai nid gormod yw dywedyd mai y cwrdd hwn oedd y goreu o'r holl gyrddau da o'r natur hwn ydym wedi gael yma. Aeth yr holl adroddwyr a'r cantor-

ion drwy eu gwaith yn ganmoladwy dros ben, ac y mae pawb fuont â llaw yn y gwaith, o fach i fawr, yn deilwng o ganmoliaeth uchel.

Da gan lawer o'n cyfeillion yn Aberdar fydd cael ar ddeall fod Mr. D. Rees wedi ei bennodi yn olygydd y *Carnarvon & Denbigh Herald* a'r *Herald Cymraeg*.

Mae seguryd yn fammaeth profedigaeth, yn gawell clefyd, yn wastraff amser, yn gancr dedwyddwch.

Hunan-aberth sydd mewn ffyrdd dirif yn gosod olew ar olwynion bywyd, yn symmud trallod, yn esmwythau dolur, yn dwyn llawenydd i deuluoedd, yn gosod cwlwm ar gyfeillgarwch, yn dwyn dynion i anwylo eu gilydd, ac yn ysgafnhau holl feichiau bywyd.

Os bydd yn rhaid rhoddi cyfrif am bob gair segur, bydd gan rai gyfrif trwm iawn i'w roi.

Nid oes dim addoliad lle nad oes llawenydd; gan fod addoliad yn rhywbeth mwy nag ofn o Dduw ac na chariad tuag ato; mae yn llawenydd ynddo.

Dechreuodd yr arferiad o gymmeryd adnod neu destyn yn sylfaen pregeth gydag Ezra. Gwel Nehemiah, pennod viii.

Nid drwg cynllun yr offeiriad yn Maine, yr hwn sydd yn argraffu ei bregethau ac yn anfon copi i'r absenolion. Pwy gymmer yr awgrym i fyny?

PRIODASAU.

Tachwedd 24, yn Nghapel Brondeifi, Llanbedr, gan y gweinidog, Mr. Evan Jones, Cwmeinon, Llanwenog, a Miss Sarah Evans, Pencaeau, Pencarreg.

Rhag. 6, yn yr H. D. C., Aberdar, gan y gweinidog, Mr. Jenkin Griffith Jones, a Miss Margaret Alice Howells, y ddau o Aberdar.

Boed llwydd i'r ddau trwy'r oll o'r daith,
A gwenau'r nef ar oll o'u gwaith;
Doethineb, cariad, cysur, hedd,
F'ont yn eu dylyn hyd eu bedd:
I'w plant a phlant eu plant o hyd
Trwy'r cenedlaethau yr un byd.

Marwgofion.

Tachwedd 4, Margaret Mary, merch Lewis a Mary Llewelyn, Caerdydd, yn 14 wythnos oed.

Mae Margaret Mary etto'n fyw
Yn ngafael ac yn ngofal Duw.

Tachwedd 21, Victor Prichard, mab Lewis a Mary Llewelyn, Caerdydd, yn 16 wythnos oed.

Daeth angel Duw a chludodd ef
O gartref dae'r i gartre'r nef.

Tachwedd 22, Gwenllian Jones, neu Gweny Richard Jenkin, Llwyncelyn Cottage, Aberdar, o fewn ychydig ddyddiau i fod yn 85 oed. Yr oedd yn aelod yn yr Hen Dy Cwrdd, Aberdar, oddiar 1816, sef dwy flynedd cyn marwolaeth gweddw y Parch. Owen Rees, gweinidog cyntaf yr H.D.C. Bu farw Mr. Rees yn 1768, a bu farw ei weddw Mawrth 11, 1818, wedi gorphen *ei chant oed* yr ail o'r mis Chwefror blaenorol. Hen wraig ddiwyd, ddiniwed oedd Gweny, a bydd hiraeth mawr ar ei hol.

"Henffych i'r dydd cawn etto gwrdd
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd."

Tachwedd 27, bu farw Catherine Hopkin, gweddw y diweddar Morgan Hopkin, a mam Mr. Lewis Hopkin Cathelyd, yn 76 oed. Hen wraig dduwiol ydoedd Mrs. Hopkins; yr oedd gair da gan bawb iddi; mynychai wahanol oedfaon Gellionen yn rheolaidd; bu yn aelod ffyddlawn yn ystod ei bywyd; a bu farw yn berffaith foddlongar i'r Ewyllys Ddwyfol. Bydded i'w mab—ei hunig blentyn—a'i pherthynasau oll feddiannu yr un yspryd â'r chwaer ymadawedig; yna, gallant ddweyd o'r galon mai Duw doeth sydd yn trefnu'r oll. Y dydd Gwener canlynol daeth torf luosog i'r angladd, pan y gweinyddodd y Parch. W. J. Davies, gweinidog Gellionen, ar yr achlysur.

Rhagfyr 9, Mr. William Jenkins, Green Hill, Aberdar, yn 58 oed.

Ffarwel, hoff gyfaill, bellach mae
Pob clefyd drosodd a phob gwae;
Uwch cyrhaedd pob rhyw ddrwg yn mhell
Mae'th annedd 'nawr mewn gwlad sydd well;
Ac O! i'r wlad wyt wedi myn'd
Dymunwn ninau ddod, ein ffrynd!

Jenkin Howell, Argraffydd, Aberdar.

Gelynion Gwaethaf y Ddynoliaeth wedi eu gorchfyug!

Dyfyniadau o LYTHYR IV. *yr enwog Ddr. Pan Jones a ymddangosodd yn "Tarian yGweithiwr" a'r "Celt" am Rhag.* 9, 1886.

GELWAIS yn masnachdy Mr. George, Hirwaun, yn ddiweddar. Y mae Mr. George wedi bod yn fyfyriwr diwyd yn ysgol fawr anian, ac wedi llwyddo i ddarganfod meddyginiaeth effeithiol rhag dau o'r anhwylderau mwyaf beichus yn hanes y teulu dynol sef y **PILES** A'R **GRAVEL.**

Bu y ddau glefyd hyn drwy yr oesoedd fel yn chwerthin am ben pob meddygiiniaeth. Y mae y cyntaf yn adnabyddus er dyddiau cwymp Dagon. Bu agos i'r clefyd hwn ysgubo ymaith holl breswylwyr pump o ddinasoedd y Philiistiaid mewn un dydd am iddynt gymmeryd Arch Duw o Ebenezer i Asdod. Y mae y **GRAVEL** drachefn wedi bod yn angeu i filoedd, ac nid oes ond ychydig yn cael myned drwy y byd heb deimlo i ryw raddau oddiwrtho. Dyma y clefyd fu yn ngeu i Napoleon III.

Yr oeddem wedi darllen lluoedd o dystiolaethau argraffedig, ac wedi clywed gan gyfeillion personol a chydnabyddion lawer am ddaioni y Pills; a gwn am luoedd yn y wlad hon ac yn America, rhai yn Damascus, yn Rhufain, yn Beyrout, llu mawr yn Paris a thrwy Germany, yn eu cadw yn wastad wrth law, fel TARIANAU rhag ymosodiadau y clefydon rhag-grybwylledig.

Yr oeddem wedi gweled tystiolaeth yr Ynad Williams i ddilysrwydd y tystiolaethau sydd yn cael eu cyhoeddi, a llu ereill na chyhoeddwyd ette. Wedi mynêd i Hirwaun a chael *interview* â Mr. George, prin y buasai yn deg i mi ymadael heb gael golwg ar y tystiolaethau. Wedi darfod y cysgod-esgus oedd genyf, cyfeiriais at y Pills, ac awgrymais "y gallai fod rhai yn amheu dilysrwydd y tystiolaethau;" wrth reswm, nid oeddwn I fy hunan yn un o'r cyfryw, fel pe tae. Heb ddweyd gair, taflodd o'm blaen glamp o lyfr mawr ar ffurf *scrap album*, a gofynodd i mi edrych a barnu drosof fy hun.

Yr oedd yno lythyrau yn mhob math o law-ysgrif,—o lun traed brain i'r German Text. Llythyrau o bob gwlad,—o China a'r Iwerddon, o San Francisco a Bagillt, o New Zealand a Dolyddelen, o Brestatyn ac Awstralia, o Liverpwl a Gibraltar, o Ysgotland a Llanrwst, o Lundain a Llanbabo, o Lanandras a Solva, o Carlisle ac Eglwyswrw, o Lanelwy a Llanbedr, o Benrhyndeudraeth a Phenrhyn-Gobaith-Da, o Cairo a Cheinewydd, o Gaercystenyn a Chaerfyrddin, o Rufain, Paris, a Naples.

Y mae meddyginiaeth Mr. George o flaen y wlad er ys dros 20 mlynedd, ac y mae eu cymmeriad wedi myned *mor eang â gwareiddiad*, canys bydd ymfudwyr, cenadon, a morwyr yn eu cymmeryd gyda hwynt i bob lle. Dywedwyd i mi gan rifyddwr o fri—pe byddai dyn yn myned ar daith o gylch y ddaear a gollwng *pill* ar ben pob llathen, y byddai raid iddo fyned fwy nag unwaith o gylch y ddaear cyn cael lle i'r *Pills* y mae Mr. George wedi eu troi allan o'i *laboratory* mewn ugain mlynedd!

Y mae y Feddyginiaeth werthfawr hon i'w chael mewn tair ffurf:—

No. 1.—George's Pile and Gravel Pills (Label wen).

No. 2.—George's Gravel Pills (Label las).

No. 3.—George's Pills for the Piles (Label goch).

Ar werth drwy yr holl fyd mewn blychau 1s. 1½c. a 2s. 9c. yr un; drwy y post 1s. 3c. a 3s. yr un. ☞ Family Boxes, yn cynnwys un blychaid o No. 1, un o No. 2, ac un o'r No. 3 Pills, 2s. 9c. yr un. Drwy y post, 3s. Arbedir llawer wrth brynu y blychau mwyaf. Perchenog:—

J. E. George, M.R.P.S., Hirwain, Glam.

Barn y Cyhoedd am George's Pills.

DYFYNIADAU O LYTHYRAU.

"Gwerthfawrocach ynt i mi nâ'r aur coeth,—arbedasant fy mywyd."

"Yr oedd pob meddyg yn ystyried fy iechyd yn ddiobaith, felly Syr, ar ol i bawb fethu, chwi a'm gwnaethoch yn holl iach."

"Clywais ganmoliaeth uchel i'ch Peleni, ond fy marn ddiduedd yw, na fynegwyd 'mo'r hanner."

"Cyn cymmeryd eich Pills nis gallwn gerdded gan y poen yn fy ymysgaroedd, ond yn awr, er fy mod yn 67 mlwydd oed, yr wyf yn teimlo fel pe na bawn ond 30."

"Yr ydwyf yn canmol eich Peleni wrth fy holl gwsmeriaid, oblegyd y maent yn wir dda."

"Ni welwyd meddyginiaeth fel yr eiddoch chwi erioed o'r blaen yn ein gwlad."

"Cynghorem bawb—o herwydd y ffug-beleni sydd yn y farchnad—i fod ar eu gwyliadwraeth pan yn prynu GEORGE'S PILLS."

"Yr oeddwn yn methu sefyll gan bendro, ac yr oedd *swashes* o ddwfr sur yn dyfod i fy ngenau. Ni chymmerais ond un blychaid o'ch Peleni cyn fy llwyr iachau."

"Yr oedd trymder anarferol yn fy nal ar ol bwyta, a chawn anesmwythder y nos gan freuddwydion brawychus; ac mae fy mhoenau erbyn hyn yn *things of the past.*"

"Er i mi wneyd aml brofion o alluoedd meddygon, yr oedd y cwbl yn ofer hyd i mi wneyd prawf o'ch Peleni chwi."

"Yr ydwyf yn dymuno gwneyd y gwellhad hwn yn hyspys er calondid i chwi, er lles i ereill, ac er clod i'r Goruchaf."

"Y mae llawer o siarad yma (California) am eich Peleni; mawr y lles y maent yn ei wneyd."

"Edrychwn ar eich Peleni fel rhai o'r pethau hyny ag ydynt yn angenrheidiol i gyssur a dedwyddwch teuluaidd."

"Nis gwn am un Feddyginiaeth yn Nghymru mewn cymmaint o fri, nac ychwaith wedi gwneyd cymmaint o ddaioni."

"Edrychir arnoch gan filoedd fel cymmwynaswr i'ch cenedl."

"Mae'n Feddyginiaeth rad, ryfeddol ei pharhad, effeithiol, syml, hawdd ei chael trwy holl ororau'n gwlad."

"Y mae yr Americaniaid yn meddwl y byd am eich meddyginiaeth, er gwaethaf eu rhagfarn yn erbyn pob peth Cymreig."

"After taking a few doses he passed no less than forty gall-stones."

"When I show them the *scores of stones* I have passed by taking your Pills, they are *struck dumb with wonder.* Seeing is believing."

"Your Pills astonish the people here by their miraculous effects."

"Dyma un o'r bendithion mwyaf i ni, y dosparth gweithiol, a allasai Rhagluniaeth ei drefnu."

Ar werth drwy yr holl fyd, mewn blychau 1*s.* 1½*c. a* 2*s.* 9*c. yr un.*

Perchenog:—J. E. GEORGE, M.R.P.S., HIRWAIN.